# Manylion llawn a meini prawf ar gyfer y gwobrau canlynol

## Tenantiaid yn Dylanwadu ar Wneud Penderfyniadau

Mae'r wobr hon yn cydnabod pa mor effeithiol y mae **landlord cymdeithasol** wedi cefnogi a grymuso Tenantiaid i ddylanwadu ar benderfyniadau allweddol. Er enghraifft, gallai hyn gynnwys sut mae Tenantiaid wedi dylanwadu ar neu gydcynhyrchu penderfyniadau arwyddocaol ar bynciau megis Cynlluniau Busnes/Corfforaethol y sefydliad, Pennu Rhent, strwythur y sefydliad, polisi newydd neu ddyrannu cyllideb.

**Meini Prawf Asesu: beth i ddweud wrthym…**

a) Sut y cafodd tenantiaid eu cefnogi a'u grymuso i gymryd rhan h.y. y dulliau a ddefnyddiwyd
b) Unrhyw gefnogaeth a gynigir i alluogi tenantiaid i gymryd rhan
c) Sut y dylanwadodd barn Tenantiaid ar benderfyniadau a'r gwahaniaeth y mae wedi'i wneud neu y bydd yn ei wneud

## Cynnwys Tenantiaid wrth Ddylunio neu Adolygu Gwasanaethau

Rhoddir y wobr hon i **landlord cymdeithasol a/neu grŵp tenantiaid** sydd wedi cynnwys tenantiaid/preswylwyr yn llwyddiannus wrth ddylunio neu adolygu gwasanaethau e.e. llunio gwasanaethau newydd, nodi gwelliannau gwasanaeth, craffu neu brofi gwasanaethau. Gallai hyn ganolbwyntio ar un neu fwy o wasanaethau y mae tenantiaid yn eu derbyn. Esiamplau fel gwasanaethau atgyweirio, gwasnaethau ar-lein, cwynion, gwasanaethau tâl gwasanaeth, adolygu cynlluniau a strategaethau Ymgysylltu â Thenantiaid.

**Meini Prawf Asesu: beth i ddweud wrthym…**

a) Sut oedd tenantiaid yn rhan o ddylunio neu adolygu gwasanaeth h.y. y dulliau a ddefnyddwyd, y gefnogaeth a gynigir i denantiaid i gymryd rhan, pa mor gynhwysol oedd y dulliau o gymryd rhan
b) Sut mae'r gwasanaeth wedi'i gwella o ganlyniad i gyfranogiad tenantiaid
c) Pa wahaniaeth y mae wedi'i wneud/y bydd yn ei wneud - canlyniadau'r cyfranogiad

## Cyfathrebu â Thenantiaid a Phreswylwyr

Mae'r wobr hon yn cydnabod pa mor effeithiol y mae **landlord cymdeithasol** yn cyfathrebu â'i denantiaid/defnyddwyr gwasanaeth. Gall hyn gynnwys ystod o ddulliau cyfathrebu fel fideo; cyfryngau cymdeithasol, cylchlythyrau, a chyswllt uniongyrchol allan yn y gymuned ayyb.

Gallai hefyd gynnwys prosiect cyfathrebu penodol i godi ymwybyddiaeth neu ddealltwriaeth o bwnc amserol, er enghraifft - tlodi tanwydd, lleithder a llwydni, diogelwch adeiladau, gwybodaeth SACT.

Dywedwch wrthym sut rydych chi'n cyfathrebu â'ch tenantiaid a pha wahaniaeth mae'n ei wneud, megis; codi ymwybyddiaeth o wasanaethau neu'r gefnogaeth rydych chi'n ei chynnig, meithrin perthnasoedd a dealltwriaeth neu bod yn atebol am berfformiad a chynlluniau eich sefydliad. Mae'r wobr hon yn cynnwys pob dull o gyfathrebu.

**Meini Prawf Asesu: beth i ddweud wrthym…**

a) Priodoldeb y dulliau cyfathrebu a ddefnyddir mewn perthynas ag anghenion/dewisiadau eich tenantiaid e.e. iaith/fformat plaen/osgoi jargon yn ystod cyfathrebu
b) Effeithiolrwydd y cyfathrebu e.e. adborth gan denantiaid/defnyddwyr gwasanaeth, dadansoddeg cyfryngau cymdeithasol ac ati
c) Y gwahaniaeth y mae'r gyfathrebiad wedi ei wneud/am ei wneud

## Tenant y Flwyddyn

Rhoddir y wobr hon i **denant/preswylydd landlord cymdeithasol** sydd wedi gwneud y cyfraniad gadarnhaol at Ymgysylltiad Tenantiaid a/neu Gymunedau.

**Meini Prawf Asesu: beth i ddweud wrthym…**

a) Yr ymrwymiad a'r ymroddiad y maen nhw wedi'u dangos
b) Pa wahaniaeth y mae eu hymrwymiad wedi'i wneud i'r gymuned denantiaid a/neu'r grwpiau y maent wedi gweithio â nhw
c) Pa mor gynhwysol maen nhw wedi bod a sut maen nhw wedi ystyried anghenion eraill

## Cynnwys Tenantiaid mewn Mentrau/Prosiectau Amgylcheddol

### (gan gynnwys prosiectau Sero Net / ORP)

Mae'r wobr hon yn cydnabod **landlord, sefydliad neu grŵp cymunedol** sydd wedi ymgysylltu'n llwyddiannus â Thenantiaid/Preswylwyr mewn mentrau sydd o fudd i'r amgylchedd, yn fyd-eang neu'n lleol!

Rydym eisiau cydnabod y rhai sy'n cefnogi tenantiaid i gymryd rhan mewn mentrau sy'n canolbwyntio ar yr amgylchedd ac elwa arnynt. Gallai'r rhain gynnwys gweithgareddau megis cynnwys tenantiaid wrth ddefnyddio gwres ynni isel; lleihau olion traed carbon; mynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd; prosiectau bioamrywiaeth/natur neu fyw'n gynaliadwy.

Felly, rhowch wybod beth rydych wedi bod yn ei wneud a beth y gallai eraill ei ddysgu ohono.

**Meini Prawf Asesu: beth i ddweud wrthym…**

a) Amlinellwch sut rydych wedi ymgysylltu â thenantiaid/preswylwyr a darparu cymorth i fod mor gynhwysol â phosibl
b) Amlinellwch effaith yr ymgysylltu hyd yma a beth allai'r effaith fod yn y dyfodol

## NEWYDD Ymgysylltiad Preswylwyr mewn Cartrefi Diogel ac Iach

Mae'r wobr newydd hon yn cydnabod **sefydliad landlord a/neu grŵp Tenantiaid** sydd wedi llwyddo i ymgysylltu â Thenantiaid/Preswylwyr mewn mentrau i sicrhau cartrefi diogel ac iach.

Gallai hyn gynnwys gweithgareddau fel cynnwys tenantiaid mewn cyd-ddylunio gwybodaeth diogelwch, gweithio gyda thenantiaid i godi ymwybyddiaeth o faterion diogelwch, ymgysylltu â thenantiaid mewn gwelliannau diogelwch i gartrefi.

Gallai hyn ganolbwyntio ar un neu fwy o faterion diogelwch, fel diogelwch rhag tân, lleithder a llwydni, a pheryglon eraill.

Felly, os ydych chi wedi cynnwys Tenantiaid/Preswylwyr i sicrhau cartrefi diogel ac iach, naill ai ar draws pob cartref neu o fewn ystâd/cymuned benodol, dywedwch wrthym beth rydych chi wedi bod yn ei wneud a beth allai eraill ei ddysgu ohono.

**Meini Prawf Asesu: beth i ddweud wrthym…**

a) Amlinellwch sut rydych chi wedi ymgysylltu â thenantiaid/preswylwyr ac unrhyw gefnogaeth i fod mor gynhwysol â phosibl
b) Amlinellwch effaith yr ymgysylltu hyd yn hyn a beth allai'r effaith yn y dyfodol fod - pa wahaniaeth y mae wedi'i wneud neu y bydd yn ei wneud?

Bydd y wobr hon yn cael ei rhoi i un enwebiad rhagorol.

## Cymunedau’n Cefnogi Cymunedau

Mae'r wobr hon yn cydnabod ac yn dathlu cyflawniadau **grŵp neu brosiect a arweinir gan y gymuned** sydd wedi cefnogi grwpiau neu unigolion eraill yn eu cymuned. Gallai'r gefnogaeth hon gynnwys esiamplau fel: cynnal gweithgareddau cymunedol, darparu cyfleusterau lleol, prosiectau amgylcheddol/garddio, cefnogaeth llesiant trefnu digwyddiadau lleol ayyb. Gallai fod yn fenter barhaus neu'n weithgaredd cymunedol untro.

Os oes rhywbeth yn cael ei wneud gan y gymuned dros y gymuned, rydym eisiau clywed amdano!

**Meini Prawf Asesu: beth i ddweud wrthym…**

a) Y math o gefnogaeth a ddarperir. Sut mae anghenion y cymunedau/unigolion wedi cael eu diwallu
b) Yr effaith y mae'r gefnogaeth wedi'i chael ar unigolion/cymunedau – pa wahaniaeth y mae wedi’i wneud

## Rhaglen Cymorth/Cyngor i Breswylwyr

Rhoddir y wobr hon i **landlord cymdeithasol** sy'n buddsoddi mewn tenantiaid a chymunedau ac yn eu cefnogi. Rydym yn chwilio am raglenni cymorth/cyngor sydd wedi’u hen sefydlu sy’n helpu preswylwyr i oresgyn heriau a gwella eu bywydau a/neu wella cyfleoedd.

Dylai enwebiadau allu dangos ymagwedd effeithiol at gymorth/cyngor. Rydym yn chwilio am unrhyw themâu, megis rheoli arian a mynd i'r afael â dyled i gynhwysiant digidol; cymorth tenatiaeth i hybiau cynnes i addysg a chyflogadwyedd.

Yr hyn yr ydym eisiau ei weld yw tystiolaeth o’r effaith gadarnhaol y mae’r rhaglen wedi’i chael ar fywydau preswylwyr.

**Meini Prawf Asesu: beth i ddweud wrthym…**

a) Tystiolaeth o ganlyniadau cadarnhaol i denantiaid, preswylwyr, neu gymunedau
b) Sut mae'r cymorth/cyngor wedi cynnwys y rhai y mae'n eu gwasanaethu

## NEWYDD Contractwr sy'n Canolbwyntio ar y Tenant

**Pwy all ymgeisio?**

Mae'r wobr hon ar agor i **Swyddogion Cyswllt Datblygu a chontractwyr** sy'n gweithio gydag un neu fwy o'n sefydliadau tai aelodau ar adeg yr enwebiad.

Mae'r wobr hon yn cydnabod contractwyr a Swyddogion Cyswllt Cyflogaeth sy'n rhoi tenantiaid yn gyntaf yn gyson yn y ffordd y maent yn cynllunio ac yn cyflawni eu gwaith. Mae'n canolbwyntio ar sut mae gwaith yn cael ei gyflawni a'i brofi gan denantiaid, nid dim ond yr hyn a gyflawnir.

Mae'n dathlu sefydliadau sy'n mynd y tu hwnt i gwblhau gwaith, y rhai sy'n cyflawni trwy brofiad cadarnhaol, parchus a chefnogol i denantiaid.

**Meini Prawf Asesu: beth i ddweud wrthym…**

a) Rhoi tenantiaid yn y canol - Sut mae anghenion, profiadau ac amgylchiadau tenantiaid yn cael eu hystyried drwy gydol y broses o ddarparu'r gwasanaeth, gan gynnwys cyfathrebu effeithiol a meithrin ymddiriedaeth gyda thenantiaid.
b) Gwrando ac ymateb - Sut mae adborth neu bryderon tenantiaid yn cael eu gwrando'n arnynt yn weithredol a'u defnyddio i lunio sut mae gwaith yn cael ei ddarparu.
c) Profiad cadarnhaol tenantiaid - Tystiolaeth gan denantiaid yn dangos sut y cawsant eu cefnogi cyn, yn ystod, neu ar ôl gwaith. Er enghraifft, gallai hyn gynnwys adborth tenantiaid, enghreifftiau ymarferol neu astudiaethau achos byr.

Mae croeso i gontractwyr gyflwyno enwebiadau mewn cydweithrediad â sefydliad tai sy'n aelodau.

Bydd y wobr hon yn cael ei rhoi i un cais rhagorol.